# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2015**

Amser:
**09.15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.30)

**09.15 – 09.30 – Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod**

### 2 Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg – Sesiwn dystiolaeth 3 (09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 – 27)

Llywodraeth Cymru
CYPE(4)-20-15 – Papur 1

Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr – y Gymraeg
Gari Lewis, Pennaeth y Gymraeg mewn Addysg – y Gangen Gynllunio

### 3 Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg – Sesiwn dystiolaeth 4 (10.30 – 11.30) (Tudalennau 28 – 37)

Comisiynydd y Gymraeg

CYPE(4)-20-15 - Papur 2

Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg
Dyfan Sion, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil
Sioned Birchall, Swyddog Polisi ac Ymchwil

## 4 Papurau i'w nodi (11.30)

**Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi - Llythyr gan Lywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** (Tudalennau 38 - 39)
CYPE(4)-20-15 - Papur i'w nodi 3

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (11.30)

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor (11.30 - 12.00) (Tudalennau 40 - 45)

CYPE(4)-20-15 - Papur preifat 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**CYPE(4)-20-15 – Papur 1**

**Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg**

**Tystiolaeth gan : Llywodraeth Cymru**

**Cyflwyniad**

1. Yn Ebrill 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i anelu at wella statws a chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, a gwella safonau yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) fel pwnc. Amlinella'r Strategaeth weledigaeth Llywodraeth Cymru sef:
   Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu, ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

2. Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau sefydlog pum mlynedd a thargedau mynegol deng mlynedd yn seiliedig ar ganlyniadau. Yn sgil hynny byddai cynnydd gweledol yn erbyn y targedau hyn yn cael eu mesur o fewn system gynllunio mwy effeithiol, atebol a chydlynol. Mae'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn greiddiol i'r system gynllunio hon.

3. Roedd y CSGA'u cyntaf, a baratowyd gan awdurdodau lleol a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru o 2012, yn anstatudol. O'r herwydd, nid oedd modd i Weinidogion Cymru gymeradwyo, addasu na'u gwrthod gan nad oedd swyddogaethau statudol mewn lle iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, roedd yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn darparu adborth manwl i awdurdodau lleol a thrafodaethau wyneb yn wyneb ynglŷn a'r Cynlluniau. Ymatebodd yr awdurdodau lleol yn ffafriol i'r broses hon ac addasu'u CSGA'u yn unol a'r adborth. Roedd hyn yn baratoad defnyddiol ar gyfer dyfodiad y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg statudol.

4. Mae rhan 4 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod y CSGA'u ar sail statudol. Mae'r Ddeddf yn diffinio CSGA fel cynllun sy'n cynnwys

   "(a) cynlluniau awdurdod lleol o ran sut y bydd yn gweithredu ei swyddogaethau addysg i –

   (i) wella cynllunio'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn ei ardal;

(ii) wella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau dysgu'r iaith yn ei ardal;

(b) targedau'r awdurdod lleol i wella cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal a gwella safonau ac i wella safonau'r addysg hwnnw a safonau dysgu'r Gymraeg yn ei ardal.

(c) adroddiad ar y cynnydd sydd wedi ei wneud i gyrraedd a targedau a nodir yn y cynllun blaenorol neu cynllun diwygiedig blaenorol."

5. Yn gryno, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi cynllun yn esbonio sut y bydd yn gwella cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a gwella safonau, ynghyd â thargedau ar gyfer gwella ac adroddiadau cynnydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod allan y trefniadau mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud o ran ymgynghori cyhoeddus ar y Cynllun, y broses o'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a chyhoeddi'r Cynllun wedi iddo gael ei gymeradwyo.

6. Swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas a'r CSGA'u yw i gymeradwyo cynllun ar y ffurff y'i cyflwynwyd, cymeradwyo gydag addasiadau, neu ei wrthod a pharatoi cynllun arall sydd i'w drin fel cynllun yr awdurdod wedi'i gymeradwyo. Yn yr achosion hynny pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried addasu neu wrthod cynllun mae'n rhaid iddynt ymgynghori â'r awdurdod lleol. Yn ymarferol, mae'r ymgynghori hwn wedi'i wneud drwy lythyr ffurfiol yn amlinellu'r addasiadau a gynigir a disgwylir i awdurdodau lleol ymateb o fewn 14 diwrnod.

7. Mae swyddogaethau'r Ddeddf yn cael eu amlinellu'n bellach gan Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Mesur y Galw ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013. Yn gryno, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud trefniadau manylach ar gyfer cynnal asesiad addysg cyfrwng Cymraeg (i fesur y galw), oes cynllun, ei ffurf a chynnwys, swyddogaethau pellach o ran ymgynghori, ac adolygu'r cynllun. Maent hefyd yn gosod allan yn fanylach y materion i ymdrin a hwy o fewn y cynllun.

**Materion i ymdrin a hwy mewn Cynllun**

8. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi rhyddhau canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â chynnwys y CSGA sy'n adlewyrchu gofynion y Rheoliadau a'r blaenoriaethau o fewn y Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynlluniau, felly, yn cwmpasu 7 maes/canlyniad:

   **Canlyniad 1**
   **Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**
   Ymhlith y materion mae'n rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael a hwy yw cynlluniau ar gyfer cynyddu'r niferoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, y

prosesau ar gyfer mesur y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth addysg statudol; cysylltiadau i'r rhaglen ysgolion 21fed ganrif, trefniadau ar gyfer cynlluniau trochi a hwyrddyfodiaid, sefydlu fforwm addysg cyfrwng Cymraeg, gwybodaeth i rieni, a sut mae'r awdurdod yn cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru (2008) i hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Canlyniad 2**

**Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

Mae'r canlyniad hwn yn ffocysu ar y trefniadau i gynyddu'r ganran o ddisgyblion blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ynghyd â datblygu trefniadau mwy effeithiol ar gyfer trosglwyddo o'r blynyddoedd cynnar/gofal plant hyd at Cyfnod Allweddol 4 gyda phwyslais penodol ar ddilyniant ieithyddol.

**Canlyniad 3**

**Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Canlyniad 4**

**Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu hystyried ar y cyd. Yn achos canlyniad 3, maer ffocws ar gynyddu'r ganran o ddysgwyr ym mlwyddyn 11 yn astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn achos Canlyniad 4, mae'r ffocws ar 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y ddau achos, mae disgwyl i awdurdodau lleol i esbonio sut y maent yn cynorthwyo ysgolion i sicrhau bod gymaint o ddisgyblion a phosib yn dewis ac yn dilyn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut y maent yn gweithio gydag eraill er enghraifft Rhwydwaith 14-19 a Fforymau Rhanbarthol.

**Canlyniad 5**

**Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

Mae'r pwyslais o fewn y canlyniad hwn ar safonau – safonau llythrennedd a rhifedd, ac ar berfformiad yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith o fewn asesiadau athrawon statudol ac arholiadau allanol ar draws y cyfnodau allweddol. Disgwylir i awdurdodau lleol i osod targedau ar gyfer y rhain. Disgwylir i awdurdodau lleol hefyd adrodd ar sut y byddant yn lleihau'r ganran sydd ddim yn sefyll arholiad allanol mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Yn ogystal, gofynnir i awdurdodau lleol i amlinellu sut maent yn annog defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth. Dyma'r amcan lle mae'r Consortia rhanbarthol yn gwneud y cyfraniad mwyaf.

**Canlyniad 6**
**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg**
Ymhlith y materion mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried yw sut maent yn asesu anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg, i ba raddau maent yn gallu cynnig gwasanaethau a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r strategaethau ar gyfer pontio unrhyw fylchau rhwng anghenion sydd wedi'u hadnabod a'r ystod o wasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Canlyniad 7**
**Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus**
Mae'r canlyniad hwn yn bennaf ynglŷn â strategaethau i sicrhau niferoedd digonol o ymarferwyr gyda'r sgiliau angenrheidiol a sgiliau methodoleg i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys y defnydd o Gynllun Sabothol Llywodraeth Cymru.

**Cynnydd hyd yma**

9. Cyflwynwyd y CSGA'u statudol cyntaf (cyfnod 2014-17) i Weinidogion Cymru ym mis Rhagyfr 2013 (yn ôl y gofyniad statudol). Cymeradwywyd 3 chynllun fel y cyflwynwyd ac 19 gydag addasiadau.

10. Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Mesur y Galw ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn gofyn i awdurdodau lleol, erbyn 20 Rhagfyr yn flynyddol i adolygu cynnydd yn erbyn targedau o fewn y Cynllun a chyflwyno unrhyw Gynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i gymeradwyo. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru o safbwynt Cynllun sydd wedi'i adolygu yn gyfyngedig i gymeradwyo fel ag y cyflwynwyd, neu cymeradwyo gydag addasiadau. Cymeradwywyd 5 fel y cyflwynwyd ac 17 gydag addasiadau.

11. Yn unol a Rheoliadau 2013 bydd awdurdodau lleol yn ymgymryd ag adolygiadau pellach o'u cynnydd yn erbyn targedau a chyflwyno cynlluniau wedi'i hadolygu i Weinidogion Cymru erbyn 20 Rhagfyr 2015. Bydd yn rhoi cyfle pellach i'r Adran Addysg a Sgiliau i herio awdurdodau lleol ar weithrediad eu cynlluniau yn ogystal a'u cynnydd parhaus o ran cyrraedd eu targedau.

12. Mae awdurdodau lleol wedi cael 3 blynedd i ddatblygu a mireinio eu CSGA'u ond mae'r graddau y bu'n rhaid cyflwyno addasiadau cyn gallu rhoi cymeradwyaeth Gweinidogol yn awgrymu bod peth ffordd i fynd cyn iddynt fod wedi gwreiddio'n ddigonol o fewn prosesau awdurdodau lleol er mwyn cyfrannu'n effeithiol tuag at dargedau a chanlyniadau'r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg.

13. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dyfodiad y CSGA'u fel elfen bwysig o greu'r system sy'n angenrheidiol i wella'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â safonau addysg cyfrwng Cymraeg.  Tra bod y mecanwaith hwn wedi ei dderbyn gan awdurdodau lleol, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y Cynlluniau, yn enwedig gan bod y gwaith o gymeradwyo'r Cynlluniau yn gychwynnol ac yn dilyn hynny y Cynlluniau diwygiedig, wedi cynnwys addasiadau sylweddol.

# Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans

## Question 1

| Will the Welsh Government meet the 2015 and 2020 targets set out in the Welsh Medium Education Strategic Plan? |
|---|
| We have already acknowledged in the last two Annual Reports on the Welsh-medium Education Strategy that we would be unlikely to meet all the 2015 targets. Against that background, it seems unlikely that those targets which will not be met in 2015 will also be met in 2020 without improved planning and action at local authority level.<br><br>However, as reported in the Annual Report on the Welsh-medium Education Strategy last year progress has been made against some of the targets and that the 2015 target to increase the number of learners aged 16–19 studying subjects through the medium of Welsh in further education colleges and work-based learning was achieved. |

## Question 2

Can you demonstrate how **WESPs have** contributed towards meeting the targets, particularly in relation to:

- More seven-year-old children being taught through the medium of Welsh;
- More learners continuing to improve their language skills on transfer from primary to secondary school;
- More learners studying for qualifications through the medium of Welsh;
- More learners aged 16-19 studying subjects through the medium of Welsh, in schools, colleges and work-based learning; and
- More learners with higher-level Welsh-language skills.

The most recent Annual Report on the Welsh-medium Education Strategy, published in July 2014, indicated that for these specific targets:

- 22.4% of seven-year-old learners being taught through the medium of Welsh compared with the 2009 baseline of 21%.
- 17% of learners continuing to improve their language skills on transfer from primary to secondary school compared to the 2009 baseline of 16% (measured as a percentage of Year 9 learners assessed in Welsh First Language). It should be noted that linguistic progression is very good between ages seven and 11 with the

cohort assessed at age 11 being over 97 per cent of that assessed four years earlier, at the age of seven. However, the situation is very different between the ages of 11 and 13. Data suggest that about 13.6% of learners assessed in Welsh first language at the age of 11 that are not similarly assessed aged 14. In order to reach the 2015 target, local authorities collectively will need to focus on reducing this discontinuity. The challenge remains in the two consortia with the highest numbers in Key Stage 2, and in specific local authority areas within these consortia, such as Carmarthenshire. However, increases in the number of 14 year old learners assessed in Welsh First Language were evidenced in Denbighshire, Powys, Ceredigion and Neath Port Talbot. Ensuring effective linguistic progression between key stage 2 and 3 is very much a local matter. It will depend on both parental and pupil attitudes, the encouragement of key teachers especially those involved in transition and the internal organisation of the secondary school in terms of language streams. In 2012 the Welsh Government published guidance aimed primarily at schools and local authorities entitled “Promoting Linguistic Progression between Key Stage 2 and Key Stage 3”

- 81.6% of learners entered for GCSE First Language entered for at least two further Level 1 or Level 2 qualifications through the medium of Welsh compared with the 2009 baseline of 80.9%. The equivalent figure for those entered for at least five Welsh-medium subjects was 55.5% compared to the 2009 baseline of 58.4% While the 2015 target was met for both indicators in 2012, the most recent figures appear to have been affected by an increasing number of learners studying vocational subjects such as BTEC. These courses are continually assessed but Welsh-medium data is not collected by the awarding bodies.

- 20.1% of students aged 16 -19 studying through the medium of Welsh or bilingually in schools compared with the 2007-08 baseline of 14.9%. This is above the target of 20% for 2020. The equivalent figure for colleges is 8.4% which is in excess of the 2015 target of 7%; and for work-based learning 3.6% against a 2015 target of 2.5%.

- The indicators for more students with higher level Welsh language skills are the total A Level Welsh First and Welsh Second Language entries as percentages of the GCSE entries two years earlier. In the case of First Language the latest figure is 5.9% against a 2015 target of 7%, and for Second Language 1.9% against a 2015 target of 3.5%.

The next Annual Report on the Welsh-medium Education Strategy will be published in July 2015

## Question 3

| How effective are local authorities at assessing levels of need for Welsh-medium education provision? How effective are WESPs in contributing to that process? |
|---|
| Local authorities are asked to explain how they will adopt systematic processes for measuring the demand for Welsh-medium childcare and Welsh-medium statutory educational provision. It is the Government's view that this should be by means of a bespoke survey consisting of the core questions which are set out in the Welsh in Education Strategic Plans and Assessing Demand for Welsh-medium Education (Wales) Regulations 2013. Where an authority carries out such an assessment the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 requires them to take the finding into account when preparing or revising its WESP.<br><br>The 2013 Regulations include provisions for Welsh Ministers to require a local authority to conduct one in certain specified circumstances.<br><br>The majority of local authorities have conducted, or have committed themselves to conducting, a survey of parental demand during the lifetime of the current Plans 2014 -17. |

## Question 4

| How has Welsh Government ensured that WESPs have resulted in increased (or different) provision being delivered at a local authority level (where such a need is identified? |
|---|
| The provision of sufficient school places remains the responsibility of local authorities. Local authority and schools receive support to improve standards of education and pupil achievement from regional consortia. Therefore, change will occur as local authorities, schools and regional consortia collect and use the relevant information and respond accordingly to need.<br><br>WESPs provide them with a mechanism for exploring and identifying particular needs with regard to Welsh-medium education and to outline actions to address these needs. It allows for close and careful scrutiny at both local and national level |

## Question 5

| How does the Welsh Government monitor and review progress, and ensure local authorities are complying with the requirements of WESPs? |
|---|

Each local authority is required to prepare a WESP covering a 3-year period. The first statutory Plans are for the period 2014 to 2017. These Plans were assessed by my Department. Welsh Ministers functions in relation to a WESP are to approve it as submitted, to approve it with modifications or to reject it and prepare another plan which is to be regarded as the local authority's approved plan.

Where Welsh Ministers are minded either to approve a plan with modifications or to reject a plan they are required to consult the local authority. In practice, this means providing the local authority with a written response outlining the required modifications. Local authorities are required to respond within 14 days with a copy of a modified plan which is then subject to a further assessment and, if acceptable, approved.

Local authorities are required to review progress against targets annually - by 20 December each year – and to revise the plan accordingly. The revised plans are subject to the same assessment process as that outlined above save that Welsh Ministers can only approve a revised plan with or without modifications..

## Question 6

Is the Minister satisfied that the process for reviewing WESPs is sufficiently transparent (with particular reference to the fact that local authorities are not required to publish an Annual Report detailing the outcomes of their reviews)? In what ways could the process be made more transparent?

Yes. Local authorities are required to consult about revised plans in accordance with statutory requirements and to publish the revised plans when they have been approved by Welsh Ministers. To require local authorities to publish an annual report in addition to this would be unnecessarily burdensome.

## Question 7

What mechanisms are in place to ensure that WESPs reflect all relevant Welsh Government policies and legislation, including

- Learner travel legislation and policy;
- 21st Century Schools programme;
- Planning policy;

- A living language: a language for living – Moving forward policy statement; and
- Flying Start.

There is always a challenge in creating a system such as the WESPs which will be able to reflect the current educational policy agenda and allow for the duties imposed to enable effective responses to policy imperatives. A common planning mechanism such as the WESP does allow for the drawing together of policy and operational strands which impinge upon the planning and provision of Welsh-medium education.

Local authorities in their WESPs are required to demonstrate how they use the information gleaned from Childcare Sufficiency Assessments to plan for expansion of Welsh-medium childcare in order to feed into Welsh-medium education. In this context, the planning and provision of Welsh-medium Flying Start places is vital. Local authorities are also required to indicate how they have built planning for additional Welsh-medium school places into their Strategic Outline Programme for 21st Century Schools Funding. Similarly, scrutiny of 231st Century Schools Funding submissions involved examining how they align with their Welsh in Education Strategic Plan. Local authorities are also required to show how they comply with the requirements of the Learner Travel (Wales) Measure 2008.

In practice, we have seen some local authorities slow to engage with departments or teams who should be feeding into the preparation of the WESP. This has been reflected in the variability of the sections dealing with early years education indicating that the relevant officers have been involved to very different degrees. It has also been true of those officers dealing with learner transport matters. At times, submission for 21st Century Funding have included obsolete references as far as Welsh-medium education is concerned showing that officers responsible for the WESP have not always liaised with those taking forward Capital Funding applications.

Essentially, this question is about local authority structures and processes. While the disciplines of drawing up and implementing WESPs could – and should – have an influence on these, it is not the main function of the WESP process.

## Question 8

How has the Welsh Government has ensured that WESPs are used to deliver equal access to welsh medium provision and equal outcomes for all pupils, for example

- welsh second language pupils;
- children from low income households; and
- pupils with additional learning needs.

The aim of WESPs is to ensure that parents and pupils can have access to Welsh-medium provision within reasonable distance if that is their preference, irrespective of where they live or their particular economic circumstances. We have also included a specific outcome in relation to additional needs so that, as far as possible, pupils with such needs are not deterred from choosing Welsh-medium education. Welsh-medium education is open to all. In essence, it is about enabling parents and pupils to make an informed choice. Whether they choose to enter the Welsh-medium sector or the English-medium sector, once they have made that choice we want them to have an education of high quality which enables them to reach their potential.

## Question 9

| In what ways could the current policy on WESPs be improved and how are those improvements being progressed? |
| --- |
| Our policy on WESPs is clear: the statutory duty on local authorities to prepare, submit and revise WESPs will remain. The current WESPs for the period 2014 to 2017 are the first statutory plans. Our intention is not to make any significant changes to the requirements in terms of content until the end of this period. Local authorities will be required to prepare new 3-year plans for the period 2018 to 2021. We shall be considering what changes to the guidelines which might be required in readiness for the next round of plans. Changes to the content of WESPs may also require amendments to the Regulations. |

## Question 10

| Please provide information on any other matters relating to WESPS that may assist the Committee in its work. |
| --- |
| The Committee will wish to consider the written evidence which has been sent separately to the Committee Business mailbox. |

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1 NA

17 Mehefin 2015

Annwyl Glerc,

**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg: tystiolaeth ysgrifenedig**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymchwiliad i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Cyd-destun**

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio.

**Cyd-destun: Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Yn ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) mae Llywodraeth Cymru yn gosod allan ei gweledigaeth o greu Cymru sydd â chyfundrefn *'addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn y nifer o bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.'*[1]

Mae Nod Strategol 1 y Strategaeth hon yn gosod allan yr hyn y disgwylir i'r Awdurdodau Lleol eu gweithredu er mwyn sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei gwireddu. Mae'r tabl gweithrediadau yn nodi bod disgwyl i Awdurdodau Lleol '[g]yflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSGA) i Lywodraeth Cymru i'w monitro'n flynyddol, gyda thargedau lleol cytûn.'[2] Cyhoeddodd y Llywodraeth ganllawiau arbennig sy'n nodi bod angen i'r Cynlluniau egluro sut y maent yn ategu Nodau Strategol y Strategaeth.

Yn sgil pasio Deddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2013 rhoddwyd sylfaen statudol i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Bu i'r cylch cyntaf o Gynlluniau statudol hyn ddod i rym o 1 Ebrill 2014. Gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r Cynlluniau (gydag addasiadau neu heb addasiadau) neu wrthod eu cymeradwyo, a pharatoi cynlluniau eraill yn eu lle. O dan y Ddeddf hon, mae Rheoliadau penodol wedi eu llunio sydd yn pennu: ffurf a chynnwys y Cynlluniau; y disgwyliadau o ran cyflwyno, cyhoeddi ac adolygu'r Cynlluniau; cyfrifoldebau mesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, a threfniadau ymgynghori ar y Cynlluniau.

Wrth edrych ar gyfrwng iaith addysg ein plant a phobl ifanc, roedd 74,277 o blant a phobl ifanc Cymru yn derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2010/11 (15.9%), o'i gymharu â 72,868 yn 2013/14 (15.7%). Yn 2013/14, roedd 26% o ysgolion Cymru yn rhai cyfrwng Cymraeg, o'i gymharu â 25% yn 2009/10.[3] Tra bod niferoedd cymharol isel o ddisgyblion yn derbyn o leiaf rhan o'u haddysg yn Gymraeg mewn ysgolion dwyieithog neu

---

[1] Llywodraeth Cymru (2010): Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, t.4.
[2] *ibid.* t, 29.
[3] https://statswales.wales.gov.uk/

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ddwy ffrwd, dengys y data uchod mai Saesneg yw cyfrwng iaith addysg y mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw.

Y gyfundrefn addysg yw'r prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg newydd erbyn hyn. Mae'n dilyn o hynny y bydd twf y Gymraeg yn y dyfodol yn ddibynnol i raddau helaeth iawn ar dwf addysg Gymraeg. Nid yw hyn yn golygu na ddylid ystyried hefyd sut y gellir sicrhau bod rhieni yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant gartref.

Awgryma'r dystiolaeth uchod na fu twf mewn addysg Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn er gwaethaf y galw cynyddol a welwyd am addysg Gymraeg. O ystyried y collir rhai miloedd o siaradwyr Cymraeg bob blwyddyn am resymau amrywiol, ni chredwn y gwelir cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg heb gyfundrefn addysg sy'n cynhyrchu mwy o siaradwyr Cymraeg newydd.

***A yw Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru?***

***A yw Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)?***

*Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau uchod, rydym wedi cynnal gwaith ymchwil pen desg gan ystyried canfyddiadau adroddiadau cyhoeddus sy'n craffu ar y maes hwn.*

Yn ei ragair i Adroddiad Blynyddol 2012-13 ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis AC, yn nodi: '*ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn erbyn targedau'r Strategaeth* [Addysg cyfrwng Cymraeg]'.[4] Mae'r Gweinidog yn ymhelaethu ar y pwynt uchod gan egluro: '*rydym yn annhebygol o weld 25 y cant o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015. Mae angen cynllunio'n well i ysgogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Er y gwnaed cynnydd sylweddol yng ngharfan y dysgwyr Blwyddyn 9 a aseswyd mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae dilyniant ieithyddol yn un o'n prif flaenoriaethau o hyd.*'[5]

Er gwaetha'r ffaith fod Adroddiad Blynyddol 2012 – 13 yn cydnabod methiant tebygol wrth gyrraedd targedau'r Strategaeth, mae'r Gweinidog yn pwysleisio gwerth y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg drwy nodi: '*mae'r CSGAau... yn caniatáu i ni herio'r awdurdodau lleol perthnasol...*'[6] Erbyn Adroddiad Blynyddol 2013 – 14 mae neges y Gweinidog ychydig yn wahanol. Yn ei ragair i'r adroddiad hwnnw mae'n nodi: '*Wrth i ni droi ein golygon at y flwyddyn olaf o Raglen Weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng*

[4] Llywodraeth Cymru (2013): Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Blynyddol 2012 – 13, t.3.
[5] *ibid.*
[6] *ibid.*

*Cymraeg, yr her yw sicrhau bod y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, prifysgol* [et al]... *yn chwarae eu rôl. Ni all Llywodraeth Cymru wireddu'r newid systematig sydd ei angen i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau i ffynnu ar ei ben ei hun. Mae angen i'n rhanddeiliaid ar bob haen o'r system weithredu er mwyn sicrhau bod amcanion y strategaeth yn cael eu cyflawni.'*[7]

Gellid dadlau fod y Gweinidog yn sgil ei sylwadau uchod, yn llai ffyddiog o allu'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gynorthwyo'r Llywodraeth i gyrraedd deilliannau a thargedau'r Strategaeth. At bwrpas y cyfraniad tystiolaeth hwn felly, yn sgil tystiolaeth y data meintiol a geir yn yr Adroddiadau Blynyddol ar gyflawniad y Strategaeth a datganiad y Gweinidog mai *'ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn erbyn targedau'*, byddwn yn ystyried rhai rhesymau posibl dros y diffyg hwn, a chyfrifoldeb y Cynlluniau am y canlyniad hwnnw.

## Grym gorfodi

Mae Adran 84 Deddf Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn amlinellu beth yw'r gofynion statudol ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg. Mae'r Ddeddf yn nodi:

> (1) Cynllun yw cynllun strategol Cymraeg mewn addysg sy'n cynnwys—
> (a) cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn—
> (i) gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal;
> (ii) gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;
> (b) targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;
> (c) adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.
> (2) Rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer ei ardal.
> (3) Rhaid i awdurdod lleol gadw golwg ar ei gynllun, ac os yw'n angenrheidiol, ei ddiwygio.

Mae Adran 85 y Ddeddf yn gosod allan yn hyn sy'n ofynnol wrth gymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu'r Cynlluniau:

> (1) Rhaid i awdurdod lleol sydd wedi llunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo.
> (2) Caiff Gweinidogion Cymru—
> (a) cymeradwyo'r cynllun fel y'i cyflwynwyd,
> (b) cymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau, neu
> (c) gwrthod y cynllun a llunio cynllun arall sydd i'w drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod.



[7] Llywodraeth Cymru (2014):

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

(3) Os yw awdurdod lleol yn dymuno diwygio ei gynllun, rhaid iddo gyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru.
(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun diwygiedig, gydag addasiadau neu hebddynt.
(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdod lleol cyn—
(a) addasu cynllun yr awdurdod o dan is-adran (2)(b),
(b) llunio cynllun arall i gymryd lle cynllun yr awdurdod o dan is-adran (2)(c), neu
(c) addasu cynllun diwygiedig yr awdurdod o dan is-adran (4).
(6) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg (neu ei gynllun diwygiedig) a gymeradwywyd.
(7) Rhaid i awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg (neu ei gynllun diwygiedig) a gymeradwywyd.

O ystyried Adran 84 ac Adran 85 o'r Ddeddf, nid yw'n ymddangos bod gan y Llywodraeth rym gorfodi mewn achosion posibl o fethiant gan Awdurdod Lleol i gyflawni targedau ac ymrwymiadau ei Gynllun Strategol. Heb gamau gorfodi amlwg, tasg anodd iawn yw gweld sut y gall y CSGAau 'sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol'.

**Cwestiwn i'r Pwyllgor ei ystyried:** *A ddylai fod gan y Llywodraeth rym gorfodi er mwyn gallu mynd i'r afael ag achosion posibl o fethiant gan Awdurdodau Lleol i gyflawni targedau ac ymrwymiadau eu Cynlluniau Strategol?*

**Cyfle i'r CSGAau sefydlu a gwreiddio**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cwmni Arad i gyflawni gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Yn yr adran 'Casgliadau Interim' o'r Gwerthusiad ar y Strategaeth, mae Arad yn nodi y datganiadau cadarnhaol isod am y CSGA:

- mae'r CSGAau wedi creu fframwaith cynllunio a monitro mwy cadarn a system newydd o atebolrwydd rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru
- bydd y trefniadau newydd yn arwain at ragor o graffu ar gynlluniau awdurdodau i ddatblygu addysg Gymraeg, yn ogystal â gweithrediad y cynlluniau hyn

Er y datganiadau uchod, noda Arad ymhellach:

> Cytuna awdurdodau lleol, swyddogion Llywodraeth Cymru ac ysgolion bod y rhain yn ddyddiau cynnar o ran sefydlu a gwreiddio'r [CSGA]. Nid yw'n realistig i ddisgwyl y bydd traweffeithiau'r gyfundrefn gynllunio newydd yn amlygu eu hunain yn llawn yn ystod oes y Strategaeth hon (2010 – 2015). Bydd angen rhaglen fonitro a gwerthuso dros y tymor hir er mwyn deall y cynnydd ac unrhyw newidiadau i ddarpariaeth sy'n deillio o'r trefniadau newydd.[8]



[8] Arad (2014): Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Interim, t. 31.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae Adroddiad Interim Arad hefyd yn ystyried yr angen i dargedau'r CSGAau sefydlu a gwreiddio ar lefel ysgolion. Mae sylwadau Arad ar y mater hwn yn adlewyrchu ymbil y Gweinidog Addysg a Sgiliau pan fo'n gofyn i randdeiliaid *'ar bob haen o'r system weithredu er mwyn sicrhau bod amcanion y strategaeth yn cael eu cyflawni.'* Dyma'r hyn mae Arad yn nodi:

> 'un mater sy'n haeddu sylw yw'r graddau y mae ysgolion, yn eu prosesau cynllunio hwy, yn adlewyrchu'r weledigaeth a blaenoriaethau cenedlaethol i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog. O'r ymweliadau ag ysgolion a gwblhawyd hyd yma fel rhan o'r astudiaeth ardal, nid yw'n amlwg bod 'ysbryd' [*sic.*] a nodau'r Strategaeth yn treiddio drwy'r system ac yn dylanwadu ar gynllunio ysgolion.'[9]

Mater pellach i'w ystyried yw pa mor gyflym y mae modd i Awdurdodau Lleol symud ymlaen i weithredu newidiadau i drefniadaeth ysgolion fyddai'n cefnogi egwyddorion a thargedau'r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cod Statudol 'Trefniadaeth Ysgolion' (2013) yn gosod allan wyth cam penodol i'r broses ar gyfer cynigion statudol i newid y ddarpariaeth o fewn ysgol. Mae'n bosibl fod y ffaith fod cymaint o gamau, a chyfnodau amseryddol penodol i bob cam, yn llesteirio gallu Awdurdod Lleol i gyfrannu yn gyflym at dargedau o fewn ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Cwestiynau i'r Pwyllgor eu hystyried:** *A yw'n gynamserol i ystyried gallu'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i 'sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol' o ystyried mai ond ers 1 Ebrill 2014 y daeth y cylch cyntaf yn weithredol?*

*A ddylid rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i Awdurdodau Lleol a/neu Lywodraeth Cymru sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn gwbl gyfarwydd â gweledigaeth, blaenoriaethau a thargedau'r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg a'r CSGAau?*

*A yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013), ac yn benodol yr wyth cam sydd i'r broses ar gyfer cynigion statudol i newid darpariaeth o fewn ysgol, yn caniatáu i Awdurdodau Lleol symud ymlaen neu drawsnewid eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion yn gyflym?*

**Uchelgais y CSGAau**

Mae adroddiad Estyn ar '*D[d]ilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog*' yn gwneud mwy nag un sylw am ddiffyg uchelgais o fewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdodau Lleol fu'n rhan o'r adolygiad. Noda Estyn:



[9] *ibid.* t.32

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

> 'Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol [*yn y sampl*] sydd â disgwyliadau digon uchel o ysgolion i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 ac sy'n cefnogi ysgolion i gyflawni targedau uchelgeisiol. Nid yw'n mynd i'r afael â'r diffyg dilyniant hyn yn flaenoriaeth i'r mwyafrif o awdurdodau lleol.'[10]

Mae Estyn yn cynnig argymhelliad penodol i Awdurdodau Lleol yn y cyswllt hwn sy'n berthnasol i'r drafodaeth hon ar uchelgais y CSGAau, sef i '*olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg*'.[11]

Mae Adroddiad Interim Arad o werthusiad y Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg yn darogan, '*byddai gofyn i awdurdodau lleol gytuno targedau heriol yn eu CSGA i gyrraedd targedau 2020.*'[12] Mae'r gosodiad hwn yn awgrymu'n gryf nad yw targedau'r CSGAau yn ddigon uchelgeisiol ar hyn o bryd i gyrraedd targedau'r dyfodol.

Yn ei drosolwg cenedlaethol o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014-17), mae'r grŵp diddordeb Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG) yn nodi'r safbwynt canlynol: '*daeth yn amlwg nad yw'r mwyafrif* [o'r Awdurdodau Lleol] *mewn gwirionedd wedi cydio yn y feddylfryd newydd sy'n ddisgwyliedig ohonynt... Pryder RhAG ydy nad yw'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn eu ffurf bresennol yn adlewyrchu ysbryd na llythyren Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, trwy amlinellu sut y bydd pob awdurdod lleol yn cyflawni'r canlyniadau a'r targedau a bennir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.*'[13]

Mae amheuon hefyd a yw'r drefn o 'fesur y galw' am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gweithredu yn yr Awdurdodau Lleol rheini lle y mae'n briodol i hynny ddigwydd. Os nad yw'r Awdurdodau Lleol yn gwbl ymwybodol o faint y galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n anodd dirnad sut y gallant fod yn sicr bod eu cynlluniau ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg yn ddigon uchelgeisiol.

Mae pryder hefyd wedi ei fynegi wrthyf am ddiffyg lleoedd o fewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Os yw diffyg argaeledd lleoedd o fewn y gyfundrefn addysg Gymraeg yn parhau i fod yn broblematig mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae'n briodol ystyried pa mor uchelgeisiol yw cynnwys CSAGau yr Awdurdodau Lleol rheini.

**Cwestiynau i'r Pwyllgor ei ystyried:** *Argymhellwn y dylai'r Pwyllgor ystyried i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn gwthio Awdurdodau Lleol yn ddigon pell wrth gymeradwyo Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.*

---

[10] Estyn (2014): Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog, t. 7.
[11] *ibid*, t.8.
[12] Arad (2014): Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Interim, t. 55.
[13] RhAG (2015): Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014-2017): Trosolwg Cenedlaethol – Casgliadau Cyffredinol, t. 1.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

*A yw diffyg uchelgais posibl rhai CSGAau yn deillio o'r ffaith nad yw'r Awdurdodau Lleol perthnasol yn deall yn iawn lefel y galw am addysg cyfrwng Cymraeg?*

*A yw'r ffaith fod prinder yn parhau o hyd yn y lleoedd sydd ar gael o fewn addysg cyfrwng Cymraeg yn awgrymu nad yw'r Awdurdodau Lleol yn gweithredu CSAGau sy'n ddigon uchelgeisiol?*

***A yw Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill (er enghraifft polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi - Iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)?***

Er mwyn i'r Pwyllgor lwyddo i ddod i farn ar y graddau y mae'r CSGA yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng y Strategaeth a deddfwriaeth / polisïau eraill, mae'n bwysig ystyried i ba raddau y mae cyfeiriadau at y Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg a'r CSGA i'w canfod yng nghyrff y dogfennau polisi hynny. Y mae Arad wedi mynd ati i gwblhau 'dadansoddiad ciplun' o ddogfennau a gyhoeddwyd gan Adran Addysg a Sgiliau y Llywodraeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn asesu effeithiolrwydd y 'rhyngweithio' hwn. Dyma ganfyddiadau Arad:

> 'Ceir cyfeiriadau penodol at y Strategaeth [Addysg cyfrwng Gymraeg] yn hanner y dogfennau a ystyriwyd.[14] Mae bron pob un o'r dogfennau hyn yn cynnwys amcanion, gweithredoedd neu sylwadau sy'n cefnogi neu sy'n gyson â'r Strategaeth, er nad yw'r cyswllt â'r Strategaeth yn eglur mewn rhai ohonynt.... Cyhoeddwyd sawl un o'r dogfennau yn gymharol ddiweddar ac mae'n anodd dehongli i ba raddau y mae'r cyfeiriadau at y Strategaeth wedi eu gwreiddio ac yn 'weithredol' ynteu'n fwy arwynebol ac yn gyfeiriadau at y Gymraeg 'wrth basio'.[15]

Rwyf innau, wrth ymateb i nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, wedi nodi nifer o achosion ble na fu rhyngweithio effeithiol rhwng y Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill. Er enghraifft, wrth ymateb i 'Ddrafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru' y Llywodraeth argymhellais fod y Cynllun 10 Mlynedd yn gwneud mwy nac 'ystyried' y bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar ar draws Cymru. Argymhellais fod angen i'r Cynllun arfaethedig gynnig ffordd ymlaen eglur a phenodol, ac felly'n adlewyrchu egwyddorion y Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg.

Wrth ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar, bu'n rhaid i mi nodi'r isod:

[14] Mae Arad ym nodi bod y dogfennau wedi eu dewis 'ar sail eu dylanwad ac arwyddocâd mewn perthynas â datblygiad polisi addysg yng Nghymru'.
[15] Arad, t. 27.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

> 'Nid oes cyfeiriad at Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru '*Iaith fyw: iaith byw*' na'i Strategaeth Addysg Gymraeg yn adran 'Cyd-destun' y ddogfen ymgynghorol hon. Mae'r adran 'Cyd-destun' yma'n manylu ar y '*fframweithiau a/neu fentrau eraill sydd wedi eu sefydlu sy'n berthnasol i'r blynyddoedd cynnar neu sy'n cael effaith arnynt... mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu hystyried o fewn cwmpas y gwaith hwn* '. Rhestrir yma'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2014), yr adolygiad o'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol, adolygiad yr Athro Graham Donaldson, y Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, yr Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, yr Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar, a Chredyd Cynhwysiol.Dylai'r iaith Gymraeg fod yn cael ei hystyried o fewn cwmpas y gwaith hwn.

Dogfen bolisi allweddol arall yw Canllawiau Strategol Rhaglen Blynyddoedd Cynnar 'Dechrau'n Deg' Llywodraeth Cymru. Mae Dechrau'n Deg yn brosiect peilot gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o wella sgiliau plant sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru cyn iddynt gychwyn ar addysg statudol. Nid yw Canllawiau Strategol y prosiect hwn yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg na'r CSGAau.[16]

**Cwestiynnau i'r Pwyllgor eu hystyried:** *A ddylai'r Pwyllgor ystyried edrych yn ehangach na chynnwys y CSGAau yn unig er mwyn dirnad a oes rhyngweithio effeithiol yn digwydd rhwng rhwng Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill?*

*A ddylai'r Pwyllgor ystyried i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu prif ffrydio o fewn deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill?*

**Cludiant**

Mae sylw mawr wedi ei roi i fater cludiant mewn nifer o ardaloedd ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig felly y mater o gludiant i ddisgyblion sy'n mynychu addysg ôl -16. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn casglu tystiolaeth gan yr holl Awdurdodau Lleol am eu trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion ôl-16 sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Rwyf yn holi'r Awdurdodau Lleol am unrhyw fwriadau ganddynt i adolygu neu ddiwygio'r ddarpariaeth cludiant presennol. Nid yw'r wybodaeth rwyf wedi ei derbyn eto yn gyflawn, ond y mae'r wybodaeth sydd gennyf hyd yma yn dangos bod nifer sylweddol o'r Awdurdodau Lleol yn bwriadu diwygio eu darpariaeth.

Bydd gennyf fwy o dystiolaeth ynglŷn â'r mater hwn maes o law, a byddwn yn falch iawn o gael rhannu'r wybodaeth yma gyda'r Pwyllgor bryd hynny.



[16] http://gov.wales/docs/dhss/publications/120913fsguidancecy.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Diolch am y cyfle hwn i gynnig sylwadau i ymchwiliad y Pwyllgor ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Credaf yn gryf fod yn rhaid i Awdurdodau Lleol fabwysiadu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac mai drwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg y dylent weithredu'r weledigaeth honno. Heb rym gorfodi, mae'n anodd gweld sut y gall Lywodraeth Cymru fynd ati i fonitro gweithrediad y Cynlluniau hyn yn effeithiol.

Bydd y blynyddoedd nesaf yn gyfnod cyffrous iawn yn hanes addysg yng Nghymru. Wrth i argymhellion arwyddocaol Adolygiad Donaldson gael eu rhoi ar waith, mae'n hynod o bwysig nad yw nodau ac egwyddorion y Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg a'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael eu anghofio a'u gwthio o'r neilltu.

Yn gywir,

**Meri Huws**

Comisiynydd y Gymraeg

CYPE(4)-20-15 – Paper to note 3

Owen Evans
Cyfarwyddwr Cyffredinol • Director General

Yr Adran Addysg a Sgiliau
Department for Education and Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

29 June 2015

Mr Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales

Dear Darren,

Further to your letter of 21 May 2015 may I first apologise for the slight delay in this response.

You have asked me to specify where in regulations it states that an individual governor cannot be required to be a designated lead for a specific issue. I think there may have been some misunderstanding which I would like to clarify.

Governing bodies are corporate bodies in law with responsibility as a whole for discharging all of their functions. While the existing law is flexible enough to allow a governing body to delegate most of its functions and responsibilities if it wishes, there are some matters which are expressly excluded from delegation, or which may only be delegated to a committee rather than an individual. Regulation 50 of the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 sets out issues which only a governing body as a whole must consider, and regulation 51 sets out issues which may only be delegated to committees of a governing body. One of the issues which must be delegated to a committee rather than an individual in regulation 51(2)(b) of the 2005 Regulations is the function of staff discipline and dismissal which is a complex HR matter. Regulation 55 of the 2005 Regulations sets out the requirement for a governing body to have a staff disciplinary and dismissal committee.

It must also be kept in mind that governors are ordinary members of the public who volunteer their services. Many join governing bodies to work as a team to help their school and may not have the necessary skills to be given responsibility for a specific matter. You particularly wish to see a governor with responsibility for HR matters and staff absences. HR issues are confidential and complex matters which require specific expertise and knowledge of employment law and policies. Many individual governors may not have the skills or

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 825381
owen.evans3@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

confidence to be responsible for such high profile and difficult matters. That is why governing bodies are advised to seek expert advice from the local authority.

For these reasons I maintain my current position that we would not seek to alter legislation to require a governing body to identify a single governor who would have responsibility for HR and staff absence matters.

I do, however, note the intention behind the report's recommendation and as such the guidance on *Effective Management of Workforce Attendance* to be published in July 2015 will suggest that governing bodies consider designating the responsibility to lead on absence management issues to one of their members or a sub-committee.

I hope you find this helpful.

Yours sincerely

**Owen Evans**

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon